# Côr Meibion Taf

# Taith Yr Alban

# 9-12 Chwefror 2023

# Ynys Bute a Chaeredin



Castell Rothesay

## Bute

Ynys yn y *Firth of Clyde* yw Ynys Bute (Sgoteg: *Buit*; Gaeleg yr Alban: *Eilean Bhòid* neu *An t-Eilean Bòdach* ). Fe'i rhennir yn ardaloedd ucheldir ac iseldir gan Ffawt Ffin yr Ucheldir (*Highland Boundary Fault*). Mae Bute yn pontio'r rhaniad rhwng ucheldir ac iseldir yr Alban gyda Ffawt Ffin yr Ucheldir yn torri trwy'r ynys rhwng Bae Rothesay a Bae Scalpsie. Mae Bute yn rhan o ardal cyngor Argyll a Bute. Roedd poblogaeth breswyl Bute yn 6,498 yn 2011.

## Enw

Mae tarddiad yr enw 'Bute' yn ansicr. Efallai ei fod yn tarddu o 'bót' (tân) yr Hen Wyddeleg, efallai mewn cyfeiriad at danau signal. Mae'n bosibl bod y cyfeiriad hwn at danau golau (*beacons*) yn dyddio o gyfnod y Llychlynwyr, pan oedd yr ynys yn ôl pob tebyg yn cael ei hadnabod gan y Llychlynwyr fel Bót.

Roedd yr ynys hefyd yn cael ei hadnabod yn ystod oes y Llychlynwyr (*Norse*)  fel Rothesay, gan gyfeirio o bosibl at yr enw personol Roth neu Roderick a'r hen ôl-ddodiad Norseg 'ey' sef 'ynys'. Cymerwyd yr enw hwn yn y pen draw gan brif dref yr ynys, a'i henw Gaeleg yw Baile Bhòid 'tref Bute'.

## Daearyddiaeth

Lleolir Bute yn y Firth of Clyde. Cysylltir yr unig dref ar yr ynys, Rothesay, gan fferi â'r tir mawr. I'r gogledd mae pentref arfordirol Port Bannatyne ble ceir cwrs golff heriol (ond ddim yn rhy heriol i olffwyr CMT!); mae pentrefi ar yr ynys yn cynnwys Ascog, Bae Kilchattan, a Kingarth.

Mae canoldir yr ynys yn fryniog, er nad yn fynyddig, gyda phlanhigfeydd conwydd (*conifers*) a pheth tir heb ei drin, yn enwedig yn y gogledd. Y pwynt uchaf yw Windy Hill, sef 278 metr. Mae canol yr ynys yn cynnwys y rhan fwyaf o'r tir amaethu, tra bod tir mwyaf garw'r ynys i'w gael yn y de eithaf o gwmpas Glen Callum. Loch Fad yw corff mwyaf Bute o ddŵr croyw ac mae'n rhedeg ar hyd y llinell ffawt.

Mae ochr orllewinol Bute yn adnabyddus am ei thraethau, ac mae gan lawer ohonynt olygfeydd gwych dros Swnt Bute tuag at Arran ac ynys lai Bute, Inchmarnock. Mae pentrefi ar ochr orllewinol yr ynys yn cynnwys Straad, o amgylch Bae St. Ninian, a Kildavanan ar Fae Ettrick.

Yn y gogledd, mae Bute wedi'i wahanu oddi wrth benrhyn Cowal gan *the Kyles of Bute*. Mae rhan ogleddol yr ynys yn deneuach ei phoblogaeth, ac mae terfynfa fferi Rhubodach yn cysylltu'r ynys â'r tir mawr yn Colintraive gan y lleiaf o ddwy fferi'r ynys. Mae'r siwrnai yn un o'r rhai byrraf, llai na 300 metr, ac mae'n cymryd ychydig funudau yn unig ond mae'n brysur oherwydd bod yn well gan lawer o dwristiaid y daith atyniadol hon i'r ynys.

## Hanes: Dyddiau cynnar

Mae hanes dyn ar Bute yn dyddio o'r cyfnod cynhanesyddol. Darn o emwaith a ddarganfuwyd mewn cist sy'n dyddio o tua 2000 CC yw mwclis Brenhines y Fodfedd .

Dywedir i Sant Maccai (bu farw 460) sefydlu mynachlog ar yr ynys ac fe'i gwladychwyd (*colonised*) gan bobloedd Gaeleg. Daeth yr ynys wedyn o dan reolaeth y Llychlynwyr a bu'n rhan o Deyrnas yr Ynysoedd, dan reolaeth llinach Crovan. Fodd bynnag, yn y 12fed ganrif, rhoddwyd yr ynys, ynghyd ag Arran, gan David I i Somerled, Arglwydd Argyll, Kintyre a Lorne. Tua throad y 13eg ganrif, ymddengys i Bute ddod i feddiant teulu Steward yr Alban, yn ystod cyfnod o ymryson mewnol ymhlith disgynyddion Somerled.

Yn ystod y 13eg ganrif, roedd Bute yn darged i ddwy ymgais Norwyaidd i ddatgan eu hawdurdod yn yr Ynysoedd. Er enghraifft, syrthiodd Castell Rothesay i Frenin yr Ynysoedd gyda chefnogaeth Norwy yn 1230, a syrthiodd eto i'r Norwyaid yn 1263. Yn 1266, rhoddodd brenin Norwy, Magnus VI, Deyrnas yr Ynysoedd i frenin yr Alban, Alecsander III , yn gyfnewid am swm mawr iawn o arian, trwy Gytundeb Perth.

**Rhan o'r Alban**

O dan Reolaeth yr Alban, roedd Bute ac Arran yn cael eu llywodraethu fel uned. Cyfunwyd Arran â’r Goron wrth i or-ŵyr Alexander Stewart, Robert, etifeddu'r orsedd trwy ei fam. Crëwyd teitl cyfatebol, Dug Rothesay gan fab Robert ar gyfer yr etifedd tebygol (*heir apparent*).

Yn ystod yr ail ganrif ar bymtheg bu achosion o ddewiniaeth (*witchcraft*): yn 1630 cyfaddefodd nifer anhysbys o fenywod i’r drosedd a chawsant eu carcharu yn y dwnsiwn yng Nghastell Rothesay, eu gadael heb fwyd na dŵr a marw o newyn. Cofnodir enghreifftiau eraill ond digwyddodd y gweithgarwch mwyaf brwd yn ystod Helfa Wrachod Fawr yr Alban ym 1661–62 pan ddienyddiwyd o leiaf bedair gwrach Bute; dihangodd un wraig a gafwyd yn euog y pryd hwnnw ond gweithredwyd y ddedfryd pan ddychwelodd i'r ynys yn 1673.

Trwy Ddeddf Llywodraeth Leol (Yr Alban) 1889, daeth Bute ac Arran yn Sir Bute. Cyfunwyd Bute â rhanbarth ehangach Argyll a Bute gan ddiwygiadau diweddarach, heb Arran.

**Ail Ryfel Byd**

Chwaraeodd Bute ran fawr yn ystod yr Ail Ryfel Byd, a’r ymwneud â’r llynges yn arbennig o arwyddocaol. HMS Cyclops oedd y llong ddepo ar gyfer y *7th Submarine Flotilla* ac roedd wedi'i lleoli gartref ym Mae Rothesay. Ychydig filltiroedd ymhellach i'r gogledd yn Port Bannatyne, llogwyd Gwesty Kyles Hydro, sy'n edrych dros y Porthladd, gan y Morlys (*Admiralty*) i wasanaethu fel pencadlys ar gyfer gweithrediadau llongau tanfor *midget (X-craft)*. Yma y cafodd yr ymosodiad cyfrinachol a beiddgar ar y *Tirpitz* ei gydlynu.

Ymgymerwyd â llawer o hyfforddiant llongau tanfor X-craft yn y dyfroedd o amgylch Bute, ac yn enwedig yn nyfroedd diarffordd Loch Striven i'r gogledd o Port Bannatyne. Bu Bute yn lletya llawer o swyddogion ac NCOs Lluoedd Arfog Gwlad Pwyl yn y Gorllewin. Yn swyddogol roedd yn wersyll milwrol, ond yn cael ei ystyried yn answyddogol fel carchar i elynion gwleidyddol Władysław Sikorski.

**Addysg**

Mae gan yr ynys un ysgol uwchradd, Rothesay Academy ble bu ein cyfaill, Jim Bicker a fu’n ein cynorthwyo i drefnu ein taith, yn bennaeth. Y fwyaf o dair ysgol gynradd yr ynys yw Ysgol Gynradd Rothesay. Yr ysgol leiaf (gyda thua 50 o ddisgyblion) yw Ysgol Gynradd Gogledd Bute yn Port Bannatyne. Mae'r drydedd ysgol gynradd, Ysgol Gynradd St Andrews, yn Ysgol Gatholig sy'n cyd-fynd ag Eglwys Sant Andreas, yr unig Eglwys Gatholig ar ynys sy’n Brotestannaidd yn bennaf.

**Chwaraeon**

Mae gan Bute lawer o glybiau chwaraeon a gweithgareddau amrywiol. Mae tri chwrs golff: Clwb Golff Rothesay, Clwb Golff Kingarth a Chlwb Golff Port Bannatyne. Y clwb chwaraeon mwyaf llwyddiannus ar yr ynys yw Clwb Shinty Bute sy'n chwarae ar y lefel uchaf o shinty (Uwch Gynghrair Marine Harvest). Mae cysylltiad clwb rygbi’r ynys â Chlwb Rygbi Pentyrch yn mynd yn ôl ddegawde a bu CMT yn helpu dathlu’r deugain mlwyddiant y llynedd. Y noson honno ganwyd y syniad o ymweld â Bute.

**Economi**

Ffermio a thwristiaeth yw'r prif ddiwydiannau ar yr ynys, ynghyd â physgota a choedwigaeth.

Ym mis Rhagfyr 2015 daeth Bute yn gartref i tua 100 o Syriaid gan wneud yr ynys yn un o dderbynwyr mwyaf y ffoaduriaid hyn yn y DU o ran ei phoblogaeth. Dywedodd cyngor Argyll a Bute fod yr ynys wedi’i dewis fel lleoliad addas oherwydd bod yna “dai cymdeithasol ar gael” a’i bod yn “agosach at y llain ganolog” ar gyfer cymorth meddygol. Mae'r newydd-ddyfodiaid hyn wedi profi i'r gymuned eu bod o ddifrif ac yn ‘golygu busnes’ yn llythrennol, trwy ddechrau siopau hynod lwyddiannus, fel Helmi's Patisserie, Rayan's (tecawê), a'r busnes mwyaf newydd, Syriana Pizza (fan fwyd).

# Map y wibdaith



# Atyniadau ar hyd y wibdaith

**1. Rothesay** - mewn Gaeleg Albanaidd fodern, gelwir Rothesay yn *Baile Bhòid*, sy'n golygu 'tref Bute'.

Canolbwynt yr hen dref oedd Castell Rothesay, a godwyd yn y 13eg ganrif. Mae'r castell wedi bod yn adfail ers tro, ond serch hynny mae'n brydferth, ac roedd yn ganolbwynt i dwristiaid cyn gynted ag y dechreuodd y dref ddatblygu'n gyrchfan glan môr.

Yn ystod oes Fictoria, daeth Rothesay yn gyrchfan boblogaidd i dwristiaid. Yn benodol, roedd yn hynod boblogaidd gyda Glaswegiaid yn mynd 'doon the watter' (yn llythrennol 'i lawr y dŵr' – cyfeiriad at ddyfroedd Linne Clyde). Roedd ei bier pren yn brysur gyda thraffig stemar. Roedd yn gartref i un o sefydliadau hydropathig niferus yr Alban, a oedd mewn bri ar y pryd. Roedd ganddi hefyd dramffordd drydan, sef Rheilffordd Ysgafn Bae Rothesay ac Ettrick, a oedd yn rhedeg ar draws ynys Bute gyfan ac yn cludo teithwyr i un o draethau mwyaf yr ynys (caeodd y dramffordd ganol y 1930au).

Codwyd cofeb rhyfel a ddyluniwyd gan Pilkington Jackson ym 1922. Roedd adeilad Winter Gardens, a godwyd ym 1923, yn ganolfan i lawer o weithgareddau yn Rothesay yng nghanol yr 20fed ganrif, ac yn gartref i rai o ddiddanwyr mwyaf adnabyddus *music hall* y dydd. Roedd Pafiliwn Rothesay, a agorwyd ym 1938, yn atyniad poblogaidd arall. Er iddo ddadfeilio'n ddiweddarach, mae'n parhau i fod yn amlwg ar lan y môr heddiw, ac mae'n cael ei adfer yn llwyr ar hyn o bryd.

Erbyn y 1960au, roedd anterth Rothesay fel mecca twristiaeth wedi dod i ben i raddau helaeth. Roedd gwyliau pecyn tramor rhad wedi dod yn fwy poblogaidd. Bu adeilad y *Winter Gardens* ar gau a bu'n segur am ddegawdau. Fodd bynnag, cafodd ei ailddatblygu yn y 1990au, ac mae bellach ar agor fel canolfan croeso ac arddangos.



2. **Port Bannatyne** - pentref i'r gogledd o'r ynys, sy'n ganolfan ar gyfer hwylio a physgota môr ar yr ynys. Mae yma ddwy iard gychod a marina ar gyfer 200 o longau. Mae *langoustines* yn cael eu pysgota gyda chewyll wedi'u hangori yn y bae. Lleolwyd llongau tanfor *midget* Dosbarth X ym Mae Kames yn ystod yr Ail Ryfel Byd ac mae cofeb i feirw y rhyfel honno. Mae Clwb Golff Port Bannatyne yn adnabyddus am olygfeydd trawiadol o'r cwrs



3. Mae **Bae Ettrick** yn fae arfordirol llydan, tywodlyd wedi'i leoli ar arfordir gorllewinol Ynys Bute yn y *Firth of Clyde*, o fewn ardal cyngor Argyll a Bute. Defnyddiwyd y bae ar gyfer hyfforddiant ymarfer ar gyfer glaniadau D-Day.



4. Mae gan **Fae Scalpsie** dros 200 o forloi ar ei draeth, na ellir ond eu cyrraedd ar droed ar draws y caeau. Mae gan yr ynys hefyd geirw, rhywogaethau cyfoethog o adar a rhai ‘sgwarnogod mawr. Mae geifr gwyllt gyda chyrn mawr, cyrliog i'w gweld yng ngogledd yr ynys.



5. Pentref a phlwyf hanesyddol ar Ynys Bute, oddi ar arfordir de-orllewin yr Alban, yw **Kingarth**. Yn yr Oesoedd Canol Cynnar roedd yn safle mynachlog ac esgobaeth a chanolfan y Seintiau Cathan a Bláán (Saesneg: Blane).



6. **Tŷ Mount Stuart** - mae'n cael ei ddyfynnu'n aml fel un o'r plastai neo-Gothig mwyaf trawiadol yn y byd, gan ddenu llawer o fyfyrwyr pensaernïol o Glasgow ar deithiau dydd. Roedd y trydydd Marcwis yn teimlo’n angerddol am gelf, sêr-ddewiniaeth, cyfriniaeth a chrefydd ac mae'r tŷ yn adlewyrchu hyn yn y casgliad o bensaernïaeth, dodrefn a chelf. Mae yma gapel marmor, llawer o wydr lliw a waliau o baentiadau a gerddi gyda phlanhigion wedi'u mewnforio o sawl rhan o'r byd, a chanolfan ymwelwyr. Cynhelir nifer o ddigwyddiadau yn y gerddi drwy gydol y flwyddyn gan ddechrau gyda Gorymdaith y Pasg.

Yn 2003 priododd y dylunydd ffasiwn **Stella McCartney** yn y capel, gan ennyn diddordeb mawr yn y cyfryngau. Yn aml, cynhelir gweithgareddau a gweithdai yno yn yr haf gan fudiad lleol sy'n darparu clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau yn ystod gwyliau'r ysgol; ceir hefyd farchnad ffermwyr a marchnad Nadolig yn y tŷ ac yn y ganolfan ymwelwyr. Yn 2016, dilyswyd copi heb ei gatalogio o’r blaen o Ffolio Cyntaf Shakespeare yn llyfrgell Tŷ Mount Stuart.

Mae'r Pafiliwn yn adeilad o'r 1930au sy'n gartref i neuadd gyngerdd, gweithdai a chaffi, ac mae'n nodedig am ei bensaernïaeth. Nid yw'r Pafiliwn wedi newid fawr ddim ers iddo gael ei adeiladu. Mae'r adeilad wedi bod yn cael ei adnewyddu dros y 4-5 mlynedd diwethaf.



7. **Gerddi Plas Ascog** - cartref Fictoraidd wedi'i adnewyddu a thŷ gwydr sy'n cynnwys llwyni a phlanhigion o bob rhan o'r byd, gan gynnwys rhedyn y credir ei fod dros 1,000 o flynyddoedd oed.

